



Eich cyf/Your ref P-06-1187
Ein cyf/Our ref EM/12022/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Medi 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Awst gan y Pwyllgor Deisebau ynghylch cynnig brechiadau COVID-19 i blant 12-16 oed.

Mae pob bwrdd iechyd bellach yn cynnig y dos cyntaf o frechlyn i'r plant 12-17 oed hynny a nodwyd gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) yn eu datganiad ar 19 Gorffennaf. Maent wedi bod yn defnyddio'r brechlyn Pfizer-BioNTech, er bod y brechlyn Moderna bellach wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio gyda phlant 12-17 oed.

Mae'r Cyd-bwyllgor yn cynghori y dylai plant sydd mewn mwy o berygl o fynd yn ddifrifol sâl os byddant yn cael COVID-19 gael cynnig y brechlyn Pfizer-BioNTech. Mae hynny'n cynnwys plant 12 i 15 oed sydd â niwroanableddau difrifol, syndrom Down, system imiwnedd wannach na'r cyffredin ac anableddau dysgu lluosog neu ddifrifol.

Mae'r Cyd-bwyllgor hefyd yn argymhell y dylid cynnig y brechlyn i blant a phobl ifanc rhwng 12 a 17 oed sy'n byw gyda pherson sydd â system imiwnedd wannach. Mae hyn yn diogelu'r unigolion hynny ar yr aelwyd sydd mewn mwy o berygl o fynd yn ddifrifol sâl os byddant yn cael COVID-19 ac na fyddant, o bosibl, yn datblygu imiwnedd llawn ar ôl cael eu brechu.

Yn unol â chynghor cynharach y Cyd-bwyllgor, dylai pobl ifanc 16 i 17 oed sydd â chyflyrau iechyd eraill sy'n eu rhoi mewn mwy o berygl o gael COVID-19 difrifol fod wedi cael cynnig brechiad eisoes.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services